**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 23 Chwefror 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | S J Gallagher | P R Hood-Williams |
| Y V Jardine | E T Kirchner | H Lawson |
| G J Tanner | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Katie Spendiff | Cydlynydd Hawliau Plant |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Jones a/ac L V Walton

---

## 44 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 45 Cofnodion:

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo a llofnodi Cofnodion y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2022 fel cofnod cywir yn amodol ar y geiriad yng Nghofnod 43 "Cynllun Gwaith 2021-2022" yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

**"Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cynllun Gwaith yn amodol ar……"

## 46 Arweiniad Asesiad Ariannol (ar gyfer taliadau'r gwasanaethau Cymdeithasol)

Rhoddodd Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau i Oedolion gyflwyniad ar y Canllawiau Asesu Ariannol ar gyfer Taliadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Amlinellodd y Polisi Codi Tâl cyffredinol (Gwasanaethau Cymdeithasol) a oedd yn ddogfen eithaf hir ac nad oedd yn hawdd i'r cyhoedd ei defnyddio. Felly, roedd y ddogfen Canllawiau Asesu Ariannol yn cael ei llunio i'w ategu.

Byddai'r Canllawiau Asesu Ariannol Drafft yn cynnwys gwybodaeth am:
- Y broses
- Yr wybodaeth sydd ei hangen
- Treuliau cyffredinol
- Treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd
- Symiau statudol
- Symiau isafswm incwm

Byddai hefyd yn amlinellu manylion am:
- Godi ffïoedd am wasanaethau gofal a chefnogaeth
- Gwasanaethau heb unrhyw ffïoedd
- Adolygu ffïoedd
- Asesiad personol
- Uchafswm ffïoedd

Amlinellodd yr hyn a oedd ac nad oedd wedi'i gynnwys:
E.e. Incwm a rhai budd-daliadau
Isafswm incwm ar ôl codi'r ffi
'Hawl sylfaenol' ar gyfer costau byw
Isafswm incwm = 'hawl sylfaenol' + 35% + 10% o'r swm hwnnw ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd
Isafswm incwm Abertawe 51 (Mae gan Abertawe 51 o gategorïau gwahanol)

Er mwyn gwneud y ddogfen ganllaw mor hawdd i'w defnyddio â phosib, roedd gwasanaethau eraill yn helpu i'w datblygu, sef:
- Tîm Gwaith Cymdeithasol
- Fforwm Taliadau Uniongyrchol
- Fforwm Rhieni a Gofalwyr
- Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

Eglurodd Pennaeth Dros Dro’r Gwasanaethau i Oedolion mai dyma ddechrau'r broses ac yr ymgynghorir â grwpiau a phartneriaid eraill, cyn i'r fformatau terfynol gael eu cyhoeddi, a fyddai'n cynnwys fersiynau dwyieithog a “hawdd eu darllen”.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau amrywiol, yr ymatebwyd iddynt gan Bennaeth Dros Dro’r Gwasanaethau i Oedolion.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion am y cyflwyniad manwl.

## 47 Diweddariad ar y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd Katie Spendiff, Cydlynydd Polisi a Phartneriaethau Hawliau y diweddaraf ar lafar ar:

**Gynllun Hawliau Plant Cyngor Abertawe:**
- Ers y lansiad, roedd gwaith wedi parhau i bennu dangosyddion perfformiad ar gyfer sut beth oedd gwneud hawliau'n realiti mewn ffordd ymarferol, a sut y gellid eu mesur. Roedd y Rhwydwaith Hawliau Plant wedi dechrau'r broses o gydgynhyrchu a fyddai'n parhau drwy ddau weithgor ar wahân hyd at fis Ebrill

2022. Byddai un grŵp yn canolbwyntio ar Gyfranogiad a Grymuso, a'r llall ar Ymgorffori, Atebolrwydd a Chydraddoldeb.
- Roedd y Tîm Partneriaeth a Chyfranogaeth wedi hwyluso 30 aelod o'r Rhwydwaith Hawliau Plant i ystyried sut olwg allai fod ar bob un o’r pum egwyddor a’r dangosyddion perfformiad hynny. Byddai'r wybodaeth hon yn bwydo i'r ddau weithgor uchod gyda'r bwriad o gael drafft cyntaf o'r Cynllun Gweithredu erbyn 1 Ebrill 2022.
- Byddai gwaith yn parhau i sicrhau bod y Cynllun Hawliau Plant yn cael ei ategu a'i alinio â gwaith Dinas Hawliau Dynol a gwaith yr Asesiad Lles.

**Pleidleisio yn 16 oed:**
- Roedd pobl ifanc 16 ac 17 oed bellach yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau sydd i ddod ac roedd pobl ifanc 14 oed a throsodd yn gymwys i gofrestru i bleidleisio. Roedd prosiect cydweithredol gyda’r Gwasanaethau Democrataidd a'r Adran Addysg wedi dechrau gyda thendr yn cael ei ddyfarnu i MAD Abertawe (Cerddoriaeth, y Celfyddydau a Dylunio), gan weithio gydag ysgolion uwchradd i ddatblygu fideo cyfryngau cymdeithasol o'r enw "dy bleidlais, dy ddyfodol" i hyrwyddo pleidleisio yn 16 oed, newidiadau yn y gyfraith sy'n galluogi pobl ifanc i bleidleisio, pleidleisio fel hawl ddemocrataidd a gwybodaeth am sut i gofrestru i bleidleisio.
- Roedd ymgyrch recriwtio Llysgenhadon Pleidleisio yn 16 ar y gweill gyda 7 ysgol uwchradd eisoes wedi enwebu eu llysgenhadon ieuenctid a'u rôl fyddai hyrwyddo ac annog eu cyfoedion i gofrestru i bleidleisio ar gyfer yr etholiadau sydd i ddod. Byddai llysgenhadon yn cael eu cefnogi mewn ysgolion a lleoliadau ieuenctid i hyrwyddo pleidleisio yn 16 oed a chofrestru i bleidleisio. Roedd y prosiect Llysgenhadon Pleidleisio yn 16 oed yn brosiect cydweithredol rhwng y Gwasanaethau Democrataidd, y Tîm Partneriaeth a Chyfranogaeth ac Ysgolion Uwchradd.
- Roedd pecyn adnoddau'n cael ei ddatblygu i gefnogi llysgenhadon i annog cofrestru i bleidleisio ymhlith eu cyfoedion, gan gynnwys posteri, deunydd hyrwyddo, cyfleoedd i gofrestru mewn pleidleisiau yn ystod amser ysgol, sesiynau ymgynnull, cynlluniau gwersi i ysgolion eu defnyddio a bathodynnau 'Mae eich pleidlais yn bwysig' i ddisgyblion. Roedd bathodynnau 'Llysgennad' a phinau ysgrifennu hefyd wedi'u prynu er mwyn hyrwyddo hawl pobl ifanc i bleidleisio yn yr etholiadau sydd i ddod.
- Byddai gwaith yn parhau gyda llysgenhadon yn ystod hanner tymor a byddent yn cael eu cefnogi yn eu lleoliad rhwng 1 Mawrth a hanner tymor y Pasg.
- Roedd posteri ynghylch cofrestru a'r newidiadau i bleidleisio yn 16 oed wedi'u dylunio. Byddai'r rhain yn cael eu rhannu a'u hyrwyddo mewn lleoliadau yng nghanol y ddinas yn ogystal ag mewn adeiladau cymunedol.

**LHDTC+**
- Roedd pecynnau Equali-tea wedi'u dosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Roedd y Tîm Partneriaeth a Chyfranogaeth wedi treulio dau ddiwrnod llawn yn hwyluso'r pecyn mewn ysgolion uwchradd a oedd wedi gofyn am gymorth i addysgu'r pecyn yn ystod gwersi ABCh.
- Roedd y Bwrdd Diogelu Iau hefyd yn hwyluso 3 sesiwn – 1) gyda CMET yn Abertawe (yn enwedig gweithgor y Bwrdd a oedd yn edrych ar gydraddoldeb

a diffyg gwahaniaethu), 2) gyda Bwrdd Magu Plant Corfforaethol CNPT, a 3) gyda Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin. Cynhaliwyd y sesiynau hyn rhwng 1 a 23 Chwefror.

**Diogelwch Menywod Ifanc:**

- Roedd y Tîm Partneriaeth a Chyfranogaeth, mewn partneriaeth â Datblygu Chwaraeon, i fod i lansio'r sesiwn 'Us Girls' gyntaf wedi'i hanelu'n benodol at fenywod 14-18 oed ddydd Iau 24 Chwefror. Roedd y sesiwn hon yn rhan o brosiect ehangach Us Girls ond roedd wedi'i neilltuo'n unigryw i ferched hŷn, a byddai'n canolbwyntio ar ddiogelwch personol. Byddai'r sesiwn hanner diwrnod yn cael ei rhannu'n dair adran:
  - sesiwn ragflas chwaraeon (yn seiliedig ar faterion a godwyd am gyfleoedd penodol menywod ifanc i wneud gweithgarwch corfforol);
  - sesiwn JUDO arbenigol (yn seiliedig ar gais am sgiliau ar gyfer diogelwch personol a hunanamddiffyn), a;
  - sesiwn ymgynghori i ymchwilio ymhellach i ganfyddiadau gwaith diogelwch y menywod ifanc er mwyn nodi'r camau nesaf. Roedd cyfle wedi codi i gysylltu â ParkLives i hwyluso sesiynau 'Couch to 5k' penodol i fenywod ifanc (yn debyg i'r troeon iechyd) lle gallai ParkLives/Datblygu Chwaraeon/Tîm Partneriaeth a Chyfranogaeth hwyluso sesiynau rhedeg diogel ac arbennig i fenywod ifanc.
- Cyllid y Faner Borffor ar gyfer economi ddiogel gyda'r hwyr i fenywod ifanc/16 oed ac yn hŷn a fu'n gweithio yn economi gyda'r hwyr Wind Street a Chanol y Ddinas. Byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant ar gyfer ymdrin â phobl sy'n agored i niwed a dangos llwybrau diogel i'r rheini a oedd yn gweithio mewn tafarndai a bwytai.

**Gwrando ar ddysgwyr:**

- Crëwyd Cymuned Dysgu Proffesiynol Llais y Disgybl (athrawon ysgol uwchradd) i weithio gyda disgyblion i ddatblygu 'Maniffesto llais y disgybl'. Byddai dysgwyr yn pennu materion sy'n bwysig iddynt ac yn llunio maniffesto i Gyngor Abertawe ymateb iddo a gweithredu arno yn ystod y misoedd nesaf.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau amrywiol, a atebwyd yn unol â hynny gan y Cydlynydd Polisi a Phartneriaethau Hawliau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am y diweddariad manwl ac awgrymodd y byddai rhai o'r materion a godwyd yn bynciau diddorol i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl eu hystyried yn eu Cynllun Gwaith ar gyfer 2022-2023.

**48 Cynllun Gwaith 2021-2022.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

**Penderfynwyd** nodi'r Cynllun Gwaith diwygiedig.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.10 pm

**Cadeirydd**